OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2007 No. 226

# Y Cynllun Credydau Treth (Cymeradwyo Darparwyr Gofal Plant) (Cymru) 2007

**Gofal Plant Cymwys**

**5.**—(1) Yn ddarostyngedig i baragraff (2), ystyr gofal plant cymwys yw gofal a ddarperir ar gyfer plentyn gan unigolyn am wobr yn llwyr neu'n bennaf yng nghartref y plentyn.

(2) Pan fo'r gofal y cyfeirir ato ym mharagraff (1) yn cael ei ddarparu ar gyfer nifer o blant o wahanol gartrefi ar yr un pryd, mae hwnnw'n ofal plant cymwys os caiff ei ddarparu yn llwyr neu'n bennaf yng nghartref un neu ragor o'r plant y darperir y gofal iddynt.

(3) Nid yw gofal plant cymwys yn cynnwys—

(a) gwarchod plant sy'n ddarostyngedig i gofrestru yn unol â Rhan 10A o Ddeddf 1989;

(b) gofal a ddarperir am wobr gan unrhyw berson ar gyfer plentyn wyth mlwydd oed neu'n hyn heblaw ei fod yn unol â pharagraff (1) neu (2).

(c) gofal plant sy'n cael ei ddarparu'n gyfan gwbl neu'n bennaf yng nghartref y plentyn ar gyfer plentyn y mae'r darparydd yn rhiant iddo neu'n berthynas iddo; neu

(ch) gofal plant sy'n cael ei ddarparu'n gyfan gwbl neu'n bennaf yng nghartref perthynas i'r plentyn lle mae'r gofal hwnnw fel arfer yn cael ei ddarparu'n unig ar gyfer un neu fwy o blant y mae'r darparydd yn rhiant neu'n berthynas iddo neu iddynt.